

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 8 Hydref, 2020 am 18.30

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Myfanwy Jones, Dafydd K Jones ac Alun Thomas.

Cydymdeimlwn a meddwl am yr teulu lleol yn dilyn trychineb diweddar yn Abergwyngregyn.

3. Cyflwyniad Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Cafwyd cyflwyniad cryno gan Beca Roberts, Swyddog Ymgysylltu a'r Gymuned am y cynllun. Cytunwyd y byddai y Clerc yn danfon y cyflwyniad ymlaen i'r aelodau. Mae lansiad y cynllun yn gael ei gynnal ar y 14 Hydref, gwahoddiad i gael ei gylchredeg i'r aelodau. Cytunwyd hefyd y byddai'r Cyngor yn gwahodd Geraint Williams i gyfarfod yn dyfodol agos. Diolchwyd i Beca am ei hamser.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2020.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Wal Maes y Groes – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Heb dderbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd, y Clerc i holi am ddiweddariad.

Lôn Goed – cylfat diffygiol yn ngwaelod y ffordd. Dŵr yn casglu ar y lôn pan mae wedi bod yn bwrw. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Wern Bach – twll yn y ffordd. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi am ddiweddariad.

Clwb Rygbi Bangor – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc wedi cwblhau'r ffurflen cwyn gan yr adran gorfodaeth, Cyngor Gwynedd.

Llwybrau cyhoeddus – llawer o ddryswch yn enwedig ar ddechrau'r cyfnod clo ar ba lwybrau oedd y rhai cyhoeddus o gwmpas Fferm Tan y Garth. Y Clerc a Cyng. Jên Morris wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

Ysbwriel/Biniau– Adroddwyd Cyng. Megan Tomos bod 3 bag ysbwriel wedi gael ei gadael yn ngwaelod Parc Main a nodwyd Cyng. Margaret Fernley fod yno 2 bin gwyrdd wedi gael ei adael is-lawr o'r Fedw. Cyng. Megan Tomos a Margaret Fernley wedi danfon ebost gyda'r lleoliadau i Cyng. Dafydd Meurig. Dim ymateb hyd yn hyn.

Maes y Groes – Cyng. Evan Jones wedi ysgrifennu llythyr i amlygu ei bryderon a'i danfon at y Clerc – y Clerc wedi danfon ymlaen at YGC. Dim ymateb hyd yn hyn, y Clerc i holi.

Tai'n Lon – Cyng. Geraint Hughes wedi cael cyfarfod ar y safle gyda Cyngor Gwynedd a Stad Penrhyn. Dim amserlen pendant, ond yn gobeithio fydd y gwaith yn cychwyn cyn y Nadolig. Preswylwyr Tai'n Lon yn bryderus iawn, ac eisiau i'r gwaith gael ei gwblhau cyn gynted a phosib.

Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes – Stad Penrhyn wedi ymateb i egluro bod hwn yn fater i'r tenant ac eu bod nhw yn parhau i siarad gyda Mr David Williams mewn ymgais i gael wedi'i gwblhau.

Paragleidio ar Moel Wnion – wedi derbyn ymateb gan Alan Pritchard, Warden Parc Eryri – Alan wedi holi Dewi Roberts, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol am y mater. Cytunwyd y byddai Cyng. Kevin Williams yn gael sgwrs gyda Dewi Roberts, ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Julian Johnson – Toriad Bro Emrys – Medi 2020	£120.00
Julian Johnson – Toriad Cae Gwigin – Medi 2020	£60.00
Julian Johnson – Toriad cae chwarae newydd – Medi 2020	£120.00
Partneriaeth Ogwen – Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol	£2593.74

7. Adroddiad Cyllid

Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Medi. Derbyniwyd yr adroddiad.

8. Cae chwarae Tal y Bont

Cyng. Dafydd Meurig wedi amlinellu'r bwriad gyda aelodau'r cymuned drwy cyfryngau cymdeithasol, ar y cyfan cafwyd ymateb cadarnhaol. Y Clerc wedi gael dyfynbris ar gyfer pyst gol 5 bob ochr gan G L Jones. Cyng. Evan Jones, Cyng. Geraint Hughes a Richard Morris i gyfarfod ar y safle gyda G L Jones. Y Cyng. Kevin Williams i ofyn i'r contractwr lleol i dorri'r cae unwaith eto cyn y gaeaf.

9. Y Mynydd

Cynhaliwyd cyfarfod pwyllgor y Mynydd ar y 7fed o Hydref gyda'r panel annibynol. Nodwyd bod y bugail wedi cwblhau 2 sesiwn hel hyd yn hyn. Cafwyd adroddiad gan y Bugail, a bod achos o gor-borri ar y Mynydd.

10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Polisi Cynllunio – Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft CCA 5: Ymrwymadau Cynllunio – yr aelodau i danfon unrhyw sylwadau erbyn y 15 Tachwedd.

Cyflwynwyd – Panel Annibynol Cymru ar Gydanbyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft – Adroddiad Blynyddol Drafft 2021/22 – yr aelodau i danfon unrhyw sylwadau erbyn 23 Tachwedd.

Cyflwynwyd – Cais am gefnogaeth – Cyngor Tref Nefyn – y Cyngor yn cefnogi fesurau a fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl lleol.

11. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen – cynhaliwyd Pwyllgor Rheoli'r Bartneriaeth wythnos diwethaf, mynychwyd Cyng. Geraint Hughes ac Cyng. Jên Morris ar ran y Cyngor. Y Clerc i ofyn am adroddiad gan Meleri Davies erbyn y cyfarfod nesaf.

Lon Bronydd – llawer o ddwr ar y ffyrdd oherwydd nid yw'r draeniau wedi gael ei glanhau (draeniau llawn pridd), Cyng. Megan Tomos i gysylltu gyda Ian Morgan, Cyngor Gwynedd.

Drain ar y ffyrdd – llawer o ddrain yn gael ei gadael ar y ffyrdd ar ôl cael ei torri – cytunwyd y bydda'r contractwyr yn cysylltu i rhybuddio'r aelodau cyn i'r gwaith gael ei gwblhau.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0154/21/CC

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Ar y gweill.

C19/0950/21/LL

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda
Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0516/13/DT

2 Parc y Moch, Bethesda
Cais i ddymchwel ystafell wydr presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le

Penderfyniad: Caniatwyd gydag amodau

NP3/21/20B

Bryn Hall, Llanllechid
Dymchwel y strwythr cefn presennol, adeiladu estyniadau unllawr ar yr ochr a cefn a gosod ffenstri to

Penderfyniad: ar y gweill.

C20/0691/21/AC

Bryn Derwas, Talybont

Diwygio amod 2 o ganiatad rhif C20/0332/21/DT er mwyn creu swyddfa uwchben y modurdy

Penderfyniad: ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

NP3/21/7B

Ty'r Mynydd Llanllechid

Gosod uned trin carthion uwchben y ddaear.

Penderfyniad: Dim sylw.

13. Materion Brys

Wal ger Cae Chwarae Talybont – y Clerc i gael rhywun i drwsio'r wal ger y cae chwarae.

Biniau halen – pawb i anfon rhestr at y Clerc o finiau sydd angen eu llenwi.

Eglwys Llan – y Clerc i gael pris gan contractwr i dorri a thacluso'r fynwent.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – y Clerc i holi Meleri Davies os oes modd edrych i mewn i gael tim agor draeniau/cynnal a chadw ar cyd gyda'r Cyngor Cymunedau eraill.